5 Mai 2015

Annwyl Syr / Madam

**Ymgynghoriad ar ymchwiliad i Ddyfodol Cyllido**

Mae'r dadleuon ynghylch cyllid teg i Gymru wedi cael eu nodi yn adroddiad Comisiwn Holtham yn 2010 ac adroddiad Comisiwn Silk (Rhan 1) yn 2012, a bu datblygiadau mwy diweddar ledled y DU a all effeithio ar setliad datganoli Cymru.

Mae Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymchwiliad i Ddyfodol Cyllido. Mae cylch gorchwyl yr ymchwiliad ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Er mwyn helpu gyda'r ymchwiliad, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich sylwadau ar y cwestiynau yn **Atodiad A.**

**Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymatebion yn Gymraeg neu'n Saesneg gan unigolion a sefydliadau, a bydd yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar maes o law.

Ni ddylai'r dystiolaeth fod yn hwy na phum ochr tudalen A4. Dylid rhifo'r paragraffau, a dylai'r dystiolaeth ganolbwyntio ar y materion uchod. Gweler y canllawiau ar gyfer y rhai sy'n darparu tystiolaeth i bwyllgorau.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig, (**nid** ar ffurf dogfen PDF, yn ddelfrydol) i SeneddCyllid@Cynulliad.Cymru

Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

Clerc y Pwyllgor

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Y Pwyllgor Cyllid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd, CF99 1NA.

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn **5 Mehefin 2015**. Efallai na fydd yn bosibl ystyried unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr hwn ymlaen at unrhyw unigolyn neu sefydliad a hoffai gyfrannu at yr adolygiad. Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei roi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

**Datgelu gwybodaeth**

Mae polisi'r Cynulliad ynghylch datgelu gwybodaeth ar gael yma. Gofalwch eich bod yn ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor. Neu, mae copi caled o'r polisi hwn i'w gael drwy gysylltu â'r Clerc (Bethan Davies – 0300 200 6372).

Yn gywir,



**Jocelyn Davies AC**

Cadeirydd